# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 16 Hydref 2014**

Amser:
**09.15**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Siân Phipps**
Committee Clerk
029 2089 8582
Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

## Agenda

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (9.15)

## Cyfarfod cyhoeddus ffurfiol (9.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Addysg a Sgiliau (9.30-10.30) (Tudalennau 1 - 44)

Huw Lewis AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Julie James AC, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Chris Jones, Pennaeth Cyllid Addysg Uwch a Gwella Perfformiad

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil - Addysg a Sgiliau (Cwestiynau yn Gymraeg)
EBC(4)-25-14 (p. 1) - Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill cyfarfod y bore

## Ôl-drafodaeth (10.30-11.00)

## 4 Papur Cwmpasu: Helpu Pobl Hyn i Gael Gwaith (11.00-11.30)

(Tudalennau 45 - 53)
Dogfennau atodol:
EBC(4)-25-14 (p. 2) - Papur Cwmpasu (Saesneg yn unig)

## 5 Papurau i'w nodi (Tudalennau 54 - 55)

Dogfennau atodol:
EBC(4)-25-14 (p. 3) - Ken Skates at William Graham ar Dwristiaeth (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **16 Hydref 2014** |
| **Amser:** | **9:30-10:30** |
| **Teitl:** | **Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2015-16** |

**Pwrpas**

1. Darparu papur tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Menter a Busnes ar y gyllideb Addysg a Sgiliau, blaenoriaethau ar gyfer 2015-16 a diweddariadau ar feysydd penodol a fydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

**Amseriad**

2. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 30 Medi 2014.

**Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2015-16**

3. Mae Cyllideb Ddrafft 2015-16 yn cynnig cynllun dwy flynedd ar gyfer buddsoddi yn y ddarpariaeth addysg a sgiliau yng Nghymru. Yn Nhabl 1 ceir trosolwg o'r gyllideb neu'r 'Prif Grŵp Gwariant' (MEG) Addysg a Sgiliau ynghyd â'r newidiadau a wnaed i'r gyllideb ddangosol ers cyhoeddi Cyllideb Derfynol 2014-15, i adlewyrchu newidiadau sylfaenol rheolaidd i Gyllideb Atodol Gyntaf 2014-15.

*Tabl 1: Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau*

| | 2014-15 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2014 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013 | Newidiadau | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| DEL Adnoddau | 1,629,443 | 1,560,094 | 20,515 | 1,580,609 |
| DEL Cyfalaf | 153,834 | 173,834 | 0 | 173,834 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,783,277** | **1,733,928** | **20,515** | **1,754,443** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 252,082 | 237,862 | 62,009 | 299,871 |
| **Cyfanswm y MEG** | **2,035,359** | **1,971,790** | **82,524** | **2,054,314** |

4. O'i gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2014-15, mae cyfanswm y dyraniad DEL Adnoddau ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi cynyddu £20.5m (1.3%) i £1,580.6m yn 2015-16. Mae'r cynnydd o £20.5m yn cynnwys:

| | £000 |
|---|---:|
| Trosglwyddiad rheolaidd o'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol – trosglwyddiad o'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer:<br>• darparu hyfforddiant proffesiynol ar gyfer Seicolegwyr Addysg (£0.54m);<br>• cefnogi'r gwasanaeth wedi'i ddiwygio a'i foderneiddio ar gyfer gweinyddu cyllid myfyrwyr (£2.5m) | 3,040 |
| Trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn ar gyfer Her Ysgolion Cymru | 12,100 |
| Gostyngiad net i'r Prif Grŵp Gwariant – symiau a drosglwyddwyd yn ôl i Cronfeydd Wrth Gefn | -47,425 |
| Cytundeb y Gyllideb<br>• Grant Amddifadedd Disgyblion (£44m)<br>• Grant Amddifadedd Disgyblion i blant o dan 5 oed (£3.8m)<br>• Prentisiaethau (£5m) | 52,800 |
| **DEL Adnoddau – cynnydd net** | **20,515** |

5. Nid oes newid i'r gyllideb gyfalaf gyffredinol o £173.834m yn 2015-16. Mae hyn yn cynnwys y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £30m a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2014-15 i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif.

6. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau i fyfyrwyr sy'n ymateb i'r galw ac sy'n sensitif i'r gyfradd llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac felly'n anodd i'w rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn a chaiff ei chyllido'n llawn. Mae'r gyllideb yn cynyddu £62.009m yn 2015-16 i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf.

7. Cafodd cynlluniau'r gyllideb ar lefel y Camau Gweithredu ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau eu cyhoeddi ar 30 Medi. I wella tryloywder darperir dadansoddiad o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau fesul Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn Atodiad 1.

## Cyd-destun y Gyllideb

8. Caiff y gyllideb hon ei phennu yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU mewn adolygiadau diweddar o wariant, ynghyd â'r drefn o flaenoriaethu cyllid o fewn ac ar draws portffolios, gan gynllunio ar yr un pryd i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu a chyflawni rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol. Mae'r holl benderfyniadau yr ydym yn eu hwynebu'n anodd. Nid oes atebion hawdd ac ni fu unrhyw fodd i ni allu gwarchod gwasanaethau rhag effaith toriadau Llywodraeth y DU a goblygiadau blaenoriaethu gwariant.

9. Rydym wedi adolygu cyllidebau fesul llinell i ganfod sut y gellir rheoli'r gostyngiadau o £47.425m. Er bod penderfyniadau anodd wedi gorfod cael eu gwneud, cafodd yr adolygiad ei gwblhau yng nghyd-destun ffocws parhaus ar ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu ac mae wedi'i lunio ar sail ein tair thema drawsbynciol ym maes cyflenwi, sef

Swyddi a Thwf; Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Amddifadus.

**Y Rhaglen Lywodraethu**

10. Mae gan yr Adran Addysg a Sgiliau bum amcan strategol sy'n cefnogi'r canlyniadau yn y Rhaglen Lywodraethu:

   - Codi safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant, cyrhaeddiad a seilwaith ledled Cymru fel y gall pawb wireddu eu potensial;
   - Darparu gweithlu medrus gyda chyfleoedd o ansawdd uchel i bob dysgwr a hynny'n cyfrannu at greu twf a swyddi;
   - Cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella lles trwy leihau anghydraddoldeb a chynyddu cyfranogiad;
   - Gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru;
   - Bod yn adran sy'n perfformio'n dda ac yn gyflogwr o ddewis.

11. O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a chyda'r gostyngiadau a wynebir ar hyn o bryd, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn glir ynglŷn â'n blaenoriaethau a bod penderfyniadau gwario'n cefnogi ein hamcanion. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi'r canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt, ac mae'r penderfyniadau a wnaed yn y gyllideb ddrafft hon yn sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn parhau i fod wedi'u halinio, hyd y gellir, i gyflawni ein hymrwymiadau. Yn y Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi ceisio diogelu ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu rhag maint y gostyngiadau yr ydym wedi'u hwynebu. Mae dadansoddiad o sut mae Camau Gweithredu yn cyd-fynd â'r Is-Ganlyniadau yn y Rhaglen Lywodraethu wedi'i gyhoeddi yn nogfen y Gyllideb Ddrafft. Mae'r Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, yn darparu diweddariad ar y camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i gefnogi ein blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu fel rhan o'r broses adrodd flynyddol, i sicrhau bod canlyniadau cysylltiedig yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

12. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn cyfrannu at nifer o feysydd o fewn y Rhaglen Lywodraethu. Mae crynodeb o newidiadau i'r gyllideb ddrafft fesul llinell wariant sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn wedi'i ddarparu isod, ynghyd â chostau a'r effaith gysylltiedig ar ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Lle gofynnodd y pwyllgor am fwy o wybodaeth mae hon wedi'i chynnwys dan y llinell wariant berthnasol.

**Asesiad Effaith**

13. Mae asesiad effaith integredig eleni'n ystyried y cyfraniad cadarnhaol y gall ein penderfyniadau gwario ei wneud tuag at greu cymdeithas decach, ac mae nid yn unig yn cynnwys yr effaith o ran cydraddoldeb y mae ein penderfyniadau gwario'n ei chael ar y naw nodwedd warchodedig ond mae hefyd yn ystyried yr effeithiau ar yr Iaith Gymraeg,

Hawliau'r Plentyn, a Threchu Tlodi, y maent oll wedi'u halinio dan ymbarél lles, fel y nodir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, trwy ystyried buddsoddiadau y gallwn eu gwneud yn awr i atal camau gweithredu drutach yn y dyfodol.

14. Un enghraifft o benderfyniadau y dylanwadwyd arnynt gan y ffactorau yn yr asesiad effaith yw'r cyllid ychwanegol o £3m yr ydym wedi'i gyfeirio at leoliadau arbenigol ar gyfer y dysgwyr anabl hynny ac arnynt angen darpariaeth arbenigol. Rydym hefyd wedi cyfeirio cyllid ychwanegol at Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, gan fod y galw am y grant cynhaliaeth hwn sy'n seiliedig ar brawf moddion yn cynyddu.

15. Rydym wedi dyrannu cyllideb ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc a fydd o gymorth gyda chynaliadwyedd ein holl bolisïau. Mae hyn yn cynnwys dyrannu £4.5m i roi cymorth i blant ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog y mae eu hangen mewn dysgu pellach ac ym myd gwaith. Mae cyllid ychwanegol o £2.8m wedi cael ei ddarparu i gefnogi'r broses o gyflwyno cymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg a Chymraeg Iaith, Mathemateg a Rhifedd a bydd hyn hefyd yn cefnogi'r broses o ddatblygu pecyn o adnoddau Llythrennedd Gwyddoniaeth. Mae £12.1m wedi cael ei ddyrannu o gronfeydd wrth gefn i'r Rhaglen Her Ysgolion i hybu perfformiad 40 o ysgolion uwchradd yng Nghymru sy'n wynebu'r amgylchiadau anoddaf.

16. Fel rhan o Gytundeb y Gyllideb mae £47.8m wedi cael ei ddarparu i wella'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'i ymestyn i blant o dan 5 oed. Mae £5m wedi cael ei ddyrannu hefyd ar gyfer Prentisiaethau i helpu i liniaru effaith toriadau arfaethedig.

17. Lle mae gostyngiadau i gyllidebau wedi gorfod cael eu gwneud byddwn yn targedu'r adnoddau sydd ar gael fel nad yw'r gostyngiadau'n effeithio'n anffafriol ar y rhai mewn tlodi.

## Twf a Swyddi

### *Llinell Wariant y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 18,746 | 19,746 | -4,200 | 15,546 |

18. Mae'r llinell wariant yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a rhoi cymorth i bobl ifanc gael gwaith. Gan adlewyrchu hyn, rydym wedi ceisio cyfyngu i'r eithaf ar y gostyngiadau yn y gyllideb.

19. Mae'r llinell wariant yn cyllido nifer o grantiau i gefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru a rhaglen Twf Swyddi Cymru. Cafodd y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru (2014-2018) ei lansio ar 20 Chwefror 2014 ac ar y cyd â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid mae'n creu cyd-destun newydd ar gyfer buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn y gwasanaeth ieuenctid, y tu hwnt i'r dyraniad a nodwyd fel rhan o'r Grant Cynnal Refeniw.

20. Mae'r gyllideb ar gyfer Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn 2015-16 wedi gostwng £4.2m o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol, a £3.2m o'i gymharu â 2014-15.

21. Mae'r cyllid a ddyrennir i gefnogi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid wedi cael ei ostwng £1m. Bydd hyn yn cael ei reoli trwy arbedion effeithlonrwydd, ailbennu cwmpas ac ailflaenoriaethu buddsoddiad a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16, er enghraifft gwasgaru'r prosiect Hwyluso Cysylltiad Cyflogwyr dros nifer o flynyddoedd.

22. Mae'r gweddill yn ostyngiad i raglen Twf Swyddi Cymru i fuddsoddiad blynyddol o £9.3m. Mae'r rhaglen hon wedi gor-ddarparu hyd yma ac rydym eisoes yn agos iawn at ein targed, sef darparu 16,000 o dargedau swyddi dros 4 blynedd, yn y drydedd flwyddyn. Rydym yn amcangyfrif y bydd gostyngiad yn nifer y cyfleoedd gwaith a ddarperir ac a lenwir yn 2015-16 o 15% neu 600 o gyfleoedd, er y bydd targedau gwreiddiol yn cael eu cyrraedd. Bydd y cyllid sy'n weddill yn dal i gael ei gefnogi â chyllid cyfatebol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

23. Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiadau i adnewyddu ein strategaeth gwasanaeth ieuenctid a chreu cronfa swyddi sy'n cynnig cyflogaeth neu hyfforddiant i bobl ifanc. Mae gennym hefyd ymrwymiad i ddarparu cyllid grant i o leiaf y lefelau yr ydym wedi'u darparu dros y blynyddoedd diwethaf ar gyfer gwasanaethau ieuenctid. Y bwriad yw y bydd lefel y cymorth grant i wasanaethau ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru'n cael ei chynnal â grant o £3.8m yn 2015-16. Caiff grantiau eu monitro yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

***Gwariant Ataliol:***

24. Mae'r buddsoddiad drwy'r llinell wariant hon yn ataliol ar y cyfan: mae'r llinell wariant o gymorth i rwystro ymddieithriad (drwy'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid) a'r costau hirdymor sy'n deillio o ddiweithdra ieuenctid (drwy Twf Swyddi Cymru), megis gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymorth ehangach.

***Polisi Twf Swyddi Cymru:***

25. Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru'n darparu cyfle i bobl ifanc ddi-waith gael gwaith am gyfnod o chwe mis gan gael tâl sy'n cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu sy'n uwch am isafswm o 25 awr yr wythnos. Felly mae'r costau'n gysylltiedig â'r isafswm cyflog a nifer yr oriau a weithiwyd.

26. Caiff canlyniadau Twf Swyddi Cymru eu mesur yn fisol ac maent yn cynnwys nifer y swyddi a grëwyd, nifer y swyddi a lenwyd a chyfraddau symud ymlaen i gyflogaeth barhaus neu ddysgu pellach. Gan fod hwn hefyd yn brosiect a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop caiff ei fonitro a'i werthuso gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar. Roedd hwn yn cynnwys rhai canfyddiadau cadarnhaol a byddwn yn ystyried argymhellion yr adroddiad i wneud gwelliannau lle mae eu hangen.

27. Mae cynaliadwyedd swyddi'n un o'r meini prawf a ddefnyddir i sicrhau ansawdd y cymorth ar gyfer cyfleoedd gwaith. Eir ati hefyd i geisio darpariaeth i ateb y galw yn ddwyieithog/trwy gyfrwng y Gymraeg gyda thros 3,000 o'r cyfleoedd gwaith hyd yma'n cael eu hysbysebu yn Gymraeg.

***Entrepreneuriaeth ieuenctid:***

28. Lansiwyd Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid ym mis Tachwedd 2010 ac mae'n strategaeth ar y cyd rhwng Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Adran Addysg a Sgiliau.

29. Nid oes unrhyw gyllidebau penodol ar gyfer entrepreneuriaeth ieuenctid yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau; fodd bynnag cefnogir hyn o fewn ystod eang o gyllidebau, gan gynnwys y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, Twf Swyddi Cymru, addysg bellach ac addysg uwch. Bydd Bagloriaeth Cymru'n cynnwys menter ac entrepreneuriaeth.

30. Mae Twf Swyddi Cymru hefyd yn cynnwys llinyn bwrsariaeth sydd wedi darparu cymorth cyllido ar gyfer 345 o bobl ifanc 16-24 oed hyd yma sy'n dymuno sefydlu eu busnesau eu hunain.

31. Cafodd yr adroddiad diweddaru diwethaf ar y Cynllun Gweithredu ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2013.

***Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid:***

32. Mae'r Fframwaith yn galw am ddull integredig gan yr holl sefydliadau sy'n rhan o ddarparu gweithgarwch ar gyfer pobl ifanc, gan ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Bydd hyn yn cael ei ddarparu trwy ddull seiliedig ar systemau o adnabod anghenion yn gynnar, broceru cymorth mewn modd cydgysylltiedig a thracio cynnydd y person ifanc.

33. Wrth wraidd y Fframwaith mae dau gam gweithredu newydd. Y cyntaf yw cynnig gweithiwr arweiniol o fewn sefydliad perthnasol a all ddarparu parhad o ran y cymorth a'r cyswllt ar gyfer y bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl.

34. Mae'r ail yn ymwneud â datblygu cynnig rhagweithiol o Warant Ieuenctid, sef cynnig, derbyn a dechrau lle addas mewn addysg neu hyfforddiant i berson ifanc sy'n mynd trwy'r broses bontio am y tro cyntaf o addysg orfodol pan fo'n 16 oed. Rydym yn credu y bydd hyn yn darparu llwybr datblygu eglur ar gyfer yr holl bobl ifanc, a hwnnw wedi'i gysylltu â gwybodaeth, cyngor a chanllawiau effeithiol i'w helpu i wneud dewis mwy gwybodus, a chefnogi ei ddatblygiad ar ôl 16. Bydd hyn yn cael ei gyllido trwy'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael mewn ysgolion, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

35. Rydym wedi cyflwyno mecanweithiau newydd i ddwyn Cynghorau a phartneriaid i gyfrif yn well am berfformiad o ran gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. O fis Ionawr 2014 bu swyddogion yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn gydag uwch arweinydd ym mhob Cyngor i drafod cynllun gweithredu'r Cyngor ar gyfer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a chynnydd tuag at gyrraedd targedau.

36. Rydym hefyd wedi creu Bwrdd Rhaglen y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o feysydd polisi perthnasol i fynd ati'n well i sicrhau cydgysylltu ar draws is-adrannau a changhennau Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r cynllun cyflawni ar gyfer ymgysylltu a datblygu ieuenctid.

37. Rydym wedi ymrwymo i werthusiad tair blynedd o'r prosiect a fydd yn cael ei gynnal mewn dau gam ar wahân. Bydd y gwerthusiad trwy broses ffurfiannol yng Ngham 1 yn asesu sut y mae'r fframwaith yn cael ei weithredu ar lefelau lleol a chenedlaethol ac yn cynnal astudiaeth gwmpas o'r opsiynau ar gyfer y dull o gyflawni'r gwerthusiad o'r effaith yng Ngham 2. Bydd y gwerthusiad llawn o'r effaith yng Ngham 2 yn adnabod ac yn mesur yr effeithiau a gafwyd gan yr elfennau o'r fframwaith a'r prosiectau y mae wedi eu llunio, ar gyfleoedd cyflogaeth a chyfranogiad i bobl ifanc, a chanlyniadau'r rheiny.

## *Llinell Wariant Gyrfa Cymru*

| **2014-15** | **2015-16** | **2015-16** | **2015-16** |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Mehefin 2014** | **Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013** | **Newidiadau** | **Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 30,500 | 27,000 | -7,000 | 20,000 |

38. Mae cyllideb Gyrfa Cymru'n gostwng £7m o'i gymharu â chyllideb ddangosol 2015-16. Dyrannwyd cyllid ychwanegol i'r gyllideb hon yn 2014-15 gan gynnwys datblygu gwefan gyrfacymru.com i gynorthwyo gyda'r gostyngiad yn y gyllideb yn y flwyddyn ddilynol.

39. Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau cyngor a chyfarwyddyd ar yrfaoedd. Darperir y gwasanaethau hyn drwy'r cyllid grant sy'n cael ei ddarparu i Dewis Gyrfa (CCDG). Mae'r gostyngiad pellach i'r gyllideb yn 2015-16 yn golygu y bydd angen newid cylch gorchwyl Gyrfa Cymru.

40. Mae'n debygol mai'r prif newidiadau fydd rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer oedolion (pobl dros 25) a gostyngiad o tua 50% mewn gwasanaethau wyneb yn wyneb i bobl ifanc hyd at 24 oed. Bydd model y gwasanaeth gwahaniaethol yn parhau gyda'r adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu'r risg mwyaf o ymddieithrio. Bydd mwy o ddibyniaeth ar sgwrsio dros y we, dros y ffôn a gwasanaethau ar y we – sy'n ddewisach gan bobl ifanc.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

41. Nid oes unrhyw ymrwymiadau o dan y llinell wariant hon. Fodd bynnag, mae Gyrfa Cymru yn sbarduno ffocws ar ganlyniadau gan gynnwys cynyddu cyfran y bobl ifanc sydd mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae Gyrfa Cymru yn bartner strategol allweddol wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid sydd â swyddogaeth ganolog o ran bodloni'r targed ar gyfer gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n cael ei bennu yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

***Gwariant Ataliol:***

42. Mae'r mwyafrif o'r gyllideb hon yn wariant ataliol gan fod y ffocws ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn arwain at benderfyniadau doethach a datblygiad llwyddiannus.

43. Mae Gyrfa Cymru'n helpu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y buddsoddiad mwy o lawer mewn addysg a hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru. Gall cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd leihau'r camgymhariad rhwng sgiliau a chyfleoedd yn y farchnad lafur, gostwng y nifer sy'n gadael addysg a hyfforddiant cyn pryd, lleihau diweithdra ymhlith pobl ifanc ac oedolion a chefnogi cyfiawnder a symudedd cymdeithasol.

### *Llinell Wariant Dysgu Seiliedig ar Waith*

| 2014-15 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2014 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013 | Newidiadau | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft |
| £000 | £000 | £000 | £000 |
| 119,308 | 121,308 | -15,000 | 106,308 |

44. Mae'r gyllideb ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yn gostwng £15m o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol. Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid ar gyfer prentisiaethau, y rhaglen Recriwtiaid Newydd a rhaglenni cyflogadwyedd i ddysgwyr 16-18 oed nad ydynt yn gyflogedig (Hyfforddeiaethau) ac oedolion 19+ nad ydynt yn gyflogedig (Barod Am Waith).

45. Disgwylir y bydd gwerth contract Hyfforddeiaethau a Barod Am Waith yn cael eu cynnal ar y lefelau presennol; felly bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn effeithio ar ddarparu a chefnogi prentisiaethau. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi yn y Rhaglen Recriwtiaid Newydd trwy dargedu lleoedd ar gyfer y rhai ar brentisiaethau a rennir.

46. Bydd y gyllideb yn cael ei blaenoriaethu i gefnogi'r rhai sydd ran o'r ffordd drwy eu rhaglenni ar 1 Ebrill 2015 ac i gefnogi cymaint â phosibl o brentisiaid ifainc newydd, yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno dechrau Prentisiaeth Lefel Uwch. Byddwn hefyd yn amcanu at gynyddu i'r eithaf ein defnydd o gyllid Ewropeaidd.

47. Trwy flaenoriaethu gwaith i recriwtio pobl ifanc 16-24 oed ac ar Brentisiaethau Uwch, un o effeithiau allweddol y gostyngiadau fydd yr effaith ar gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau lefel 2 a 3 i oedolion. Dyrannwyd £5m ychwanegol fel rhan o Gytundeb y Gyllideb i liniaru hyn i ryw raddau.

48. Mae ein cefnogaeth i Brentisiaethau hefyd yn ymyrraeth allweddol yn nhermau cefnogi twf. Mae gwaith ymchwil diweddar gan y Ganolfan Economeg ac Ymchwil Busnes yn rhagweld bod person sy'n cwblhau Prentisiaeth, ar gyfartaledd, yn cynyddu cynhyrchiant busnes £214 yr wythnos. Ym mis Ionawr 2012, daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad bod cyflogau unigolion sydd â phrentisiaethau uwch bellach 18% yn uwch, tra bo cyflogau'r rhai sydd â phrentisiaethau canolradd 11% yn uwch (o'i gymharu â pherson heb brentisiaeth, cymhwyster cyfwerth neu gymhwyster uwch). Mae hyn yn golygu enillion o £21 ac £16 yn y drefn honno am bob £1 o wariant cyhoeddus.

### *Y Rhaglen Lywodraethu:*

49. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi ein hymrwymiad i fynd i'r afael â diweithdra ieuenctid ac i gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau i bobl ifanc ledled Cymru. Mae darparu prentisiaethau o ansawdd uchel

yn rhan hanfodol o'n strategaeth i wella sgiliau gweithwyr yng Nghymru ac oherwydd gostyngiadau yr ydym wedi gorfod eu gwneud yn y gyllideb rydym yn canolbwyntio ar ddysgwyr 16-25 oed ac oedolion di-waith.

50. Mae cyflwyno olynydd i'r rhaglen Adeiladu Sgiliau fydd yn cynnig gwell cymorth, gan gynnwys hyfforddiant "ennyn diddordeb" i bobl ifanc sy'n wynebu'r rhwystrau gwaethaf i ddiweithdra, yn un o'r ymrwymiadau sydd wedi'u cyflawni o dan y gyllideb hon, gan fod y rhaglen olynol, Hyfforddeiaethau, wedi'i chyflwyno.

51. Mae’r rhaglen Recriwtiaid Newydd wedi cael ei hymestyn dros y tair blynedd ddiwethaf, gan gefnogi parhad hyfforddiant prentisiaeth yn ystod y dirywiad economaidd. Mae’r rhaglen wedi mynd y tu hwnt i’w thargedau ac mae’n cael ei gostwng wrth i’r adferiad economaidd ddigwydd. Bydd dyfodol y rhaglen hon yn 2015-16 yn canolbwyntio ar dargedu prentisiaethau a rennir.

52. Mae’r ymrwymiad i gyflwyno’r Gwasanaeth Paru Prentisiaeth ledled Cymru wedi cael ei gyflawni hefyd. Mae’r gwasanaeth hwn ar y we, a letyir gan Gyrfa Cymru, yn galluogi darpar brentisiaid i gofrestru, chwilio ac ymgeisio am swyddi prentisiaid gwag. Gall cyflogwyr gofrestru eu cwmnïau, cysylltu â darparwyr hyfforddi lleol a hysbysebu swyddi prentisiaid. Dyrennir £100,000 i’r gwasanaeth hwn ar gyfer 2015-16 o’r llinell wariant Datblygu Polisi Addysg Bellach

***Gwariant Ataliol:***

53. Ystyrir bod holl gyllideb y Llinell Wariant Dysgu Seiliedig ar Waith yn ataliol. Y rheswm dros hyn yw bod prentisiaethau’n darparu'r sgiliau i gystadlu'n fwy effeithiol yn y farchnad lafur; yn darparu gweithlu hynod fedrus i gyflogwyr ac yn gwella lles unigolion. Caiff llwyddiant y prentisiaethau ei fesur gan nifer yr unigolion sy'n cyflawni fframwaith prentisiaeth. Caiff llwyddiant Hyfforddeiaethau ei fesur gan ddatblygiad llwyddiannus i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

***Polisi Prentisiaeth:***

54. Caiff y cyfraddau cyllido ar gyfer prentisiaethau eu pennu gan ddefnyddio model costau gweithgareddau, a gyflwynwyd gyntaf ym mis Awst 2011. Roedd hwn yn seiliedig ar adolygiadau costio a gynhaliwyd rhwng 2008 a 2010. Mae’n seiliedig ar ddatblygu dealltwriaeth am gostau darparu rhaglenni a lefelau gweithgareddau. Mae gwaith ar adolygu costau fframweithiau a phennu cyfraddau cyllido ar gyfer fframweithiau newydd yn broses barhaus, sy’n parhau trwy bob cylch o gontractau dysgu seiliedig ar waith ar y cyd â’r rhwydwaith o ddarparwyr. Cyn y tendr diweddar ar gyfer dysgu seiliedig ar waith cwblhawyd adolygiad o’r tybiaethau ynglŷn â chostau gweithgareddau sy’n tanategu’r model cyllido Hyfforddeiaethau a Phrentisiaethau. Daeth hwn i’r casgliad nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i’r model cyllido prentisiaethau, ond fe arweiniodd at newid i’r fethodoleg gyllido ar gyfer rhaglenni hyfforddeiaethau o 1 Ebrill 2015.

55. Gan fod dysgu seiliedig ar waith yn cael ei gyllido trwy dendr cystadleuol gwneir dyraniadau i'r darparwyr sy'n dangos y ddarpariaeth o'r ansawdd uchaf. Caiff dyraniadau eu teilwra hyd y gellir i ateb galw economaidd yn seiliedig ar wybodaeth leol a gwybodaeth am y farchnad lafur. Caiff y broses ddarparu a'r canlyniadau eu monitro a'u gwerthuso wedyn trwy gyfres o weithgareddau gan gynnwys adroddiadau ar ganlyniadau dysgwyr, arolwg llais dysgwyr ôl-16, arolwg cyflogau prentisiaethau, gweithio gyda darparwyr i liflinio prosesau ac effeithlonrwydd trwy ddull darbodus.

56. Byddwn yn ymgynghori ar ddatblygiad y system prentisiaethau yr hydref hwn. Rhagwelir y bydd hyn yn ystyried ble orau i fuddsoddi arian cyhoeddus yng ngoleuni'r polisi cydfuddsoddi sy'n datblygu a sut y gall newidiadau i ddyluniad prentisiaethau ychwanegu gwerth.

### *Llinell Wariant Cyflogaeth a Sgiliau*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 19,797 | 24,157 | 0 | 24,157 |

57. Mae'r gyllideb ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau'n dal i fod yr un fath â chyllideb ddangosol 2015-16. Mae'r llinell wariant yn cyllido'r broses o ddatblygu a darparu rhaglenni sy'n cynorthwyo pobl i gael mynediad at waith a datblygu yn y gwaith trwy gymorth gyda sgiliau a hyfforddiant. Mae'n hwyluso ymateb uniongyrchol i gynorthwyo twf busnesau unigol trwy ddatblygiad y gweithlu ac yn darparu datrysiadau sy'n seiliedig ar sectorau ac yn seiliedig ar gyflogaeth er mwyn ymateb i'r anghenion dynodedig o ran sgiliau mewn meysydd blaenoriaeth sy'n bwysig i economi Cymru.

58. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cefnogi'r defnydd o swm sylweddol o gyllid ESF i gefnogi'r rhaglenni hyn. Cafodd adolygiad ar raddfa fawr o brosiectau a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ei gwblhau yn dilyn y gostyngiadau yn y gyllideb hon yn 2014-15. Roedd hyn yn cynnwys dad-neilltuo o rai prosiectau nad oeddent yn perfformio mor uchel ag eraill, er enghraifft Twf Sgiliau Cymru, ac ailfuddsoddi lle'r oedd angen mewn rhaglenni a oedd yn perfformio'n uchel megis y Gronfa Blaenoriaethau Sector a ReAct. Cytunwyd ar gynnydd mewn cyfraddau ymyrryd gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd, a wnaeth ein galluogi i gynnal lefelau darparu presennol gyda chyllidebau is ar gyfer rhaglenni. Mae prosiectau 2014-2020 yn cael eu trafod gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar hyn o bryd.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

59. Mae'r gyllideb hon yn cefnogi ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â'r cymorth i gwmnïau angori ac anghenion hyfforddi penodol ar gyfer diwydiant, mynd i'r afael â llythrennedd a rhifedd yn y gweithle, ReAct a Chronfa Ddysgu Undebau Cymru.

60. Mae’r llinell wariant hon bellach yn cefnogi gwaith Prosiect Gwybodaeth y Farchnad Lafur sy’n helpu i sicrhau bod gwybodaeth allweddol am y cyflenwad a’r galw am sgiliau ar gael i randdeiliaid (trwy’r Arsyllfa Dysgu a Sgiliau), i ddarparwyr dysgu, ac i bobl ifanc (trwy gyrfacymru.com). Mae’r prosiect hwn yn cyflawni’r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur i helpu unigolion i wneud dewisiadau gwybodus am ddarpariaeth addysg.

***Gwariant Ataliol:***

61. Mae'r gyllideb hon yn ymateb i anghenion hyfforddi unigolion a chyflogwyr i gynorthwyo gyda mynediad i'r gweithle, aros mewn gwaith a datblygu o fewn y gweithle. Yn y ffordd hon, mae'n mynd i'r afael â materion o ran sgiliau a chyflogadwyedd sy’n rhwystro unigolion rhag cael mynediad i'r gweithle, aros mewn gwaith a datblygu o fewn y gweithle. Yn yr un modd, mae'n mynd i'r afael â materion o ran sgiliau sy'n rhwystro cyflogwyr rhag gallu manteisio ar gyfleoedd ar gyfer twf neu addasu i amgylchiadau economaidd sy'n newid.

***Datganiad Polisi ar Sgiliau:***

62. Fe wnaed y Datganiad Polisi ar Sgiliau ym mis Ionawr 2014 ac roedd yn canolbwyntio ar sgiliau ar gyfer swyddi a thwf, sgiliau sy’n ymateb i anghenion lleol, sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi a sgiliau ar gyfer cyflogaeth am y deng mlynedd nesaf. Cafodd y Cynllun Cyflawni Sgiliau ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014 a phrif ffocws y cynllun yw cynyddu cynhyrchiant, lleihau rhwystrau i waith a chefnogi pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy.

63. Yn ein Cynllun Cyflawni Sgiliau, sy’n dweud sut yr ydym yn mynd i gyflawni ein Polisi Sgiliau, mae’r meysydd a nodir yn cael eu cyllido gan gyllidebau presennol megis y llinell wariant Cyflogaeth a Sgiliau, y llinell wariant Dysgu Seiliedig ar Waith a’r llinell wariant Darpariaeth Addysg Bellach. Mae a wnelo hyn nid â chynyddu gwariant ond â gwneud defnydd gwell o’r cyllid sydd gennym, i ganolbwyntio ar feysydd pwysig megis pynciau STEM.

64. O 2015-16 ymlaen, mae gennym gynlluniau ar gyfer lefelau cynyddol o gydfuddsoddi gan gyflogwyr yn y rhaglenni yr ydym yn eu darparu. Bydd hyn yn lleihau’r pwysau ar gyllidebau rhaglenni. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i barhau â rhaglenni mewn ardaloedd yng Nghymru nad ydynt yn gymwys i gael cyllid dan raglenni Ewrop yn y cyfnod o 2014-2020.

65. Rydym wedi datblygu set o Fesurau Perfformiad Sgiliau a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Medi. Nod y mesurau yw llywio'r ymrwymiad i wella'r sylfaen sgiliau gyffredinol yng Nghymru gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion. Bydd y mesurau'n cael eu defnyddio fel gwybodaeth y gellir cyfeirio ati'n barhaus wrth werthuso polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. Bydd y mesurau perfformiad sgiliau hefyd yn gweithredu fel dull o asesu ein cynnydd tuag at yr uchelgais hirdymor ar gyfer y gyfundrefn sgiliau yng Nghymru a gyflwynwyd gan y Datganiad Polisi ar Sgiliau.

### *Llinell Wariant Refeniw Addysg Uwch*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 330,341 | 330,173 | 540 | 330,713 |

66. Mae'r gyllideb ar gyfer Refeniw Addysg Uwch wedi cynyddu o'i gymharu â'r dynodiad dangosol o ganlyniad i drosglwyddiad o £0.540m o'r Grant Cynnal Refeniw i gyllido'r ddarpariaeth hyfforddiant proffesiynol ar gyfer Seicolegwyr Addysg. Mae'r ddarpariaeth i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n dal i fod yr un fath â'r dynodiad dangosol.

67. Mae cyfanswm yr incwm sydd ar gael i'r sector addysg uwch yng Nghymru'n dal i gynyddu o'i gymharu â'r model cyllido blaenorol o ganlyniad i'r gyfundrefn ffioedd dysgu newydd. Roedd y cynnydd cyfartalog mewn cyllid ar y cyfan i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru'n 11.1% yn 2013-14. Mae'r model diweddaraf yn awgrymu y bydd incwm i'r sector yn dal i gynyddu yn ystod (blwyddyn academaidd) 2015-16 os yw sefydliadau yng Nghymru'n gallu parhau i ddenu niferoedd digonol o fyfyrwyr.

68. Mae gwariant a chynllun gweithredol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n dal i gael eu monitro trwy gyfarfodydd chwarterol gyda swyddogion a gweinidogion.

69. Cyflwynwyd y Bil Addysg Uwch (Cymru) ar 19 Mai 2014 gyda'r nod o wella'r system reoleiddiol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Mae'r Bil yn gwneud y canlynol:

- cynnal y drefn o reoleiddio addysg uwch yng nghyd-destun y trefniadau cyllido a chymorth myfyrwyr a gyflwynwyd ym mis Medi 2012.
- rhoi pwerau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru reoleiddio rhai sefydliadau a darparwyr heb orfod dibynnu ar delerau ac amodau cyllido

- sicrhau ansawdd addysg uwch yng Nghymru, bod mynediad cyfartal at addysg uwch yn cael ei flaenoriaethu, bod terfynau ffioedd yn cael eu gorfodi a bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n dal i ddarparu sicrwydd ynglŷn â rheolaeth ariannol darparwyr addysg uwch.

70. Rydym yn dal i weithio gyda'r sector i ganlyn arni â'r Datganiad Polisi Addysg Uwch. Mae hwn yn adeiladu ar gryfderau'r sector ac yn sefydlu set glir o flaenoriaethau gan gynnwys rhyngweithio â busnesau i ysgogi arfer arloesol a thwf economaidd, gwella cyflogadwyedd yr holl raddedigion, cydweithio gyda darparwyr addysg bellach i sicrhau bod cyfleoedd datblygu ar gael i'r holl ddysgwyr a datblygu modelau darparu mwy hyblyg i greu dyfodol mwy llwyddiannus a chynaliadwy.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

71. Mae gennym ymrwymiad i sicrhau na fydd ffioedd mewn Prifysgolion yng Nghymru'n codi'n uwch na £4,000 heb i sefydliadau allu dangos eu bod yn gwella profiad y myfyriwr ac yn ehangu mynediad. Cyflwynodd Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 y rheolaethau perthnasol ar lefelau ffioedd. Y gost sy'n gysylltiedig â'r Grant Ffioedd Dysgu i ddiogelu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru rhag lefelau uwch o ddyledion yw £236m yn 2015-16.

72. Bu ad-drefnu sylweddol yn Ne Orllewin a De Ddwyrain Cymru, gyda chreu sefydliad diwygiedig Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru. Mae'r adroddiad terfynol ar yr adolygiad o Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru wedi cael ei gyhoeddi ac mae'r sefydliadau dan sylw'n ystyried argymhellion yr adroddiad. Mae hyn wedi creu nifer llai o brifysgolion cryfach yng Nghymru yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

73. Fel yr adroddwyd yn yr adroddiad ar y Rhaglen Lywodraethu yn 2013-14, mae nifer o ymrwymiadau sy'n ymwneud â llywodraethu sefydliadau addysg uwch wedi cael eu disodli gan y Bil Addysg Uwch (Cymru).

***Gwariant Ataliol:***

74. Mae cefnogaeth i ddysgu uwch yn hanfodol i ddyfodol Cymru. Mae prifysgolion yn cyfrannu £1.3 biliwn y flwyddyn i economi Cymru ac yn darparu dros 16,000 o swyddi yng Nghymru gan greu dros £400 miliwn y flwyddyn mewn buddsoddiadau allforio.

***Polisi Addysg Uwch – cyllid i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru:***

75. Mater i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac nid Llywodraeth Cymru yw'r modd y mae'n dyrannu cyllid i'w ddosbarthu i'r sector addysg uwch mewn meysydd megis ymchwil a darpariaeth ôl-raddedig, darpariaeth ran amser, STEM a phynciau drud eraill. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y diwygiadau i ffioedd dysgu a setliad cyllideb

Llywodraeth Cymru'n golygu bod gan y Cyngor rai penderfyniadau anodd i'w gwneud.

76. Rhaid i ni fod yn realistig a chydnabod bod hyn yn golygu bod perthynas Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gyda Phrifysgolion yng Nghymru wedi newid ac y bydd yn parhau i newid. Nid yw'r mwyafrif o gyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i Brifysgolion mwyach ond mae'n cael ei dalu mewn grantiau ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Prifysgolion yng Nghymru'n well eu byd dan y gyfundrefn newydd a dylai fod disgwyliad ar ein sefydliadau i dderbyn bod ganddynt gyfrifoldeb am fod y canlyniadau'n bwysig i Gymru. Dylai hyn nodi dechrau dull partneriaeth o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ym maes addysg uwch.

77. Caiff y polisi cyllid myfyrwyr ei danategu gan fodel ariannol soffistigedig sy'n cymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth ariannol bresennol a neilltuwyd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn ogystal â ffynonellau eraill ar gyfer incwm sefydliadol megis ffioedd dysgu. Caiff rhagolygon eu hadolygu'n rheolaidd wrth i ddata newydd neu fwy cadarn ddod ar gael. Caiff rhagolygon wedi'u diweddaru eu cynhyrchu gan y tîm dadansoddi yn Is-adran Addysg Uwch yr Adran Addysg a Sgiliau ar adegau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ariannol i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf am ymddygiad myfyrwyr, tueddiadau demograffig, cyfraddau hawlio, ffactorau economaidd-gymdeithasol a data perthnasol arall yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

78. Mae mwy o fyfyrwyr yn dod i mewn i Gymru o rannau eraill o'r DU nag sy'n symud yn y cyfeiriad arall. O ganlyniad, mae sefydliadau yng Nghymru'n cael symiau uwch o incwm ffioedd gan y myfyrwyr hynny nag y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n eu talu mewn grantiau ffioedd i sefydliadau y tu allan i Gymru.  Mae'r rhagolygon presennol yn nodi incwm net o £51.7m yn 2015-16, sy'n cynyddu i £53.6m yn 2016-17.

79. Mae'r rhagolygon gwariant yn 2015-16 ar gyfer y grant ffioedd dysgu wedi cynyddu £10.7m i £235.5m oherwydd cynnydd o 2,200 yn niferoedd y myfyrwyr. Mae hyn yn dal i fod o fewn terfynau gwariant ein model gwreiddiol.

### *Llinell Wariant Costau Rhedeg Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru*

| 2014-15 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2014 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013 | Newidiadau | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft |
| £000 | £000 | £000 | £000 |
| 2,768 | 2,768 | 0 | 2,768 |

80. Ni chynigir unrhyw newidiadau i gyllideb costau rhedeg Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r gyllideb yn cefnogi'r costau rhedeg (staff a gweithredol) ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rydym wedi diogelu cyllideb costau rhedeg Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor adnoddau staff digonol i gyflawni'r swyddogaethau newydd a gynigir yn y Bil Addysg Uwch (Cymru).

### *Llinell Wariant Er Mwyn Ein Dyfodol – Y Coleg Ffederal ac Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 32,304 | 30,498 | 0 | 30,498 |

81. Mae'r gyllideb ar gyfer Er Mwyn Ein Dyfodol yn dal i fod yr un fath â'r cynlluniau dangosol. Mae'r gyllideb yn cefnogi darpariaeth Prifysgol Blaenau'r Cymoedd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a blaenoriaethau strategol eraill gan Lywodraeth Cymru.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

82. Mae Rhaglen Blaenau'r Cymoedd wedi cael ei chwblhau bellach ac mae'r prosiectau allweddol parhaus wedi'u hintegreiddio â phrosesau darparu partneriaid craidd. Rydym wedi cefnogi'r trefniadau trosiannol i sicrhau bod Coleg newydd Merthyr Tudful yn gwbl weithredol erbyn mis Medi 2013 gyda'r gallu i gynnig dewis eang o opsiynau academaidd ôl-16. Mae'r ymrwymiad hwn yn gysylltiedig nid yn unig â dod ag addysg uwch yn nes at y rhai a fyddai'n elwa fwyaf ohono, ond hefyd yn gysylltiedig ag adfywio calon ac enaid y gymuned.

83. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gydag £8.6m wedi'i ddyrannu yn 2015-16, yn ei genhadaeth i ddarparu swyddogaeth trosolygu, rheoli a datblygu annibynnol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

### *Llinell Wariant Dyfarndaliadau Wedi'u Targedu*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 9,376 | 9,004 | -2,000 | 7,004 |

84. Mae’r gyllideb ar gyfer Dyfarndaliadau wedi’u Targedu’n gostwng £2.0m o’i gymharu â chyllideb ddangosol 2015-16. Mae’r gyllideb yn cefnogi Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn i roi cymorth i fyfyrwyr sydd mewn angen gwirioneddol.

85. Ar gyfer 2015/16, rydym yn diogelu’r cronfeydd ariannol wrth gefn ar gyfer addysg bellach. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu atal cynllun y gronfa wrth gefn ddewisol ar gyfer addysg uwch. Canfu adolygiad annibynnol Oldbell3 o gronfeydd ariannol wrth gefn fod y myfyrwyr a oedd yn gallu cael mynediad at gymorth statudol llawn trwy grantiau a benthyciadau fel arfer yn cael eu cyllido’n ddigonol. Fodd bynnag roedd y cronfeydd ariannol wrth gefn yn galluogi sefydliadau i fod yn hyblyg ac ymateb i amgylchiadau eithriadol. Gan fod yr incwm sydd ar gael i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru’n cynyddu gyda’r newid yn y gyfundrefn ffioedd, rydym yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y sector ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i ganfod sut y gall prifysgolion gefnogi eu myfyrwyr agored i niwed.

### *Llinell wariant Costau Gweinyddu’r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid a Thollau EM*

| 2014-15 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Mehefin 2014** | **Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013** | **Newidiadau** | **Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 7,338 | 5,838 | 2,500 | 8,338 |

86. Mae’r gyllideb hon yn cynyddu o’i gymharu â’r cynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16 o ganlyniad i drosglwyddiad o’r Grant Cynnal Refeniw yn dilyn moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae’r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr bellach yn darparu cyngor, arweiniad a’r broses ymgeisio ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr. Roedd hyn yn cael ei wneud yn flaenorol gan Awdurdodau Lleol.

## <u>Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Amddifadus</u>

### *Llinell Wariant Grant Dysgu Llywodraeth Cymru*

| 2014-15 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Mehefin 2014** | **Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013** | **Newidiadau** | **Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 196,533 | 186,870 | 4,050 | 190,920 |

87. Mae'r gyllideb ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad wedi cynyddu £4.05m o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon y rhaglen gymorth statudol i fyfyrwyr sy'n ymateb i'r galw ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau Wedi'u Targedu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Mae lefelau a throthwyon cymhwyster y grantiau wedi cael eu rhewi ar gyfer yr holl grantiau cyllid myfyrwyr o 2014-15 tan 2016-17. Mae rhewi lefelau cymhwyster grantiau'n mynd ran o'r ffordd tuag at sicrhau y bydd cymorth yn dal i fod yn fforddiadwy o fewn y cynlluniau a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y grant ac effaith ddisgwyliedig codi'r cap ar niferoedd myfyrwyr yn Lloegr disgwylir y bydd cynnydd yn y galw, ac mae cyllideb ychwanegol wedi cael ei dyrannu.

88. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod costau byw'n ystyriaeth allweddol i fyfyrwyr ac mewn cyfnod o gyni ac yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu rydym wedi llwyddo i gynnal lefel gyffredinol y cymorth a gynigir i'n myfyrwyr. Mae hyn yn golygu bod Cymru'n dal i fod â'r system cymorth grant ar sail prawf moddion fwyaf hael o blith yr holl weinyddiaethau yn y DU.

89. Bydd y cyllid ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn cael ei gynnal ar lefel o £30 yr wythnos i fyfyrwyr cymwys. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, a fydd yn ystyried pa mor effeithiol fu'r Cynllun a pha un a ellir targedu'r cyllid yn well. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad ym mis Hydref a byddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer darparu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng ngoleuni ei ganfyddiadau a'i argymhellion.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

90. Fe ddywedon ni yn y Rhaglen Lywodraethu y byddem yn cynnal ein hymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr o'r aelwydydd â'r incwm isaf ac rydym yn gwneud hyn trwy gynnal lefel gyffredinol y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr. Mae grantiau eraill wedi'u targedu ar gael hefyd, gan gynnwys y Grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol, y Grant Oedolion Dibynnol, y Lwfans Dysgu i Rieni a'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl. Mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd tuag £17m yn cael ei ddyrannu dan y cynlluniau grant hyn.

***Gwariant Ataliol:***

91. Mae cymorth i fyfyrwyr ar gyfer dysgu uwch ar ffurf Grant Dysgu Llywodraeth Cymru'n helpu i dalu costau byw, mae'r Grant Ffioedd Dysgu'n helpu i gwrdd â chost ffioedd ac mae dyfarndaliadau wedi'u targedu megis y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl neu'r Grant Gofal Plant yn creu cyfleoedd bywyd gwell i unigolion. Mae cymwysterau addysg uwch yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth ac mae'r dystiolaeth yn dal i fod yn gryf o blaid "premiwm graddedigion" sy'n golygu bod gan raddedigion y potensial i gael cyflogau uwch ac enillion uwch trwy gydol eu hoes.

**Darpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth**

92. Mae'r gyllideb hon yn dal i gymryd ein rhaglen ddeddfwriaethol bresennol i ystyriaeth. Mae atodiad sy'n nodi'r costau ar gyfer 2015-16, sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a gyflwynwyd yn flaenorol a chostau disgwyliedig deddfwriaeth ddrafft (lle mae Biliau wedi cael eu cyflwyno i'r Cynulliad), wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â naratif y Gyllideb Ddrafft. Mae diweddariad mwy manwl ar gostau ein rhaglen ddeddfwriaethol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn wedi'i ddarparu isod.

## Cyrhaeddiad Addysgol

### *Llinell Wariant Darpariaeth Addysg Bellach*

| 2014-15 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2014 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013 | Newidiadau | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft |
| £000 | £000 | £000 | £000 |
| 413,531 | 414,319 | -14,142 | 400,177 |

93. Mae'r gyllideb ar gyfer darpariaeth Addysg Bellach yn gostwng £14.1m yn 2015-16 o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad rheolaidd o £7.5m o'r Cam Gweithredu 'Lles Plant a Phobl Ifanc', i ddarparu cyllid atodol mewn addysg bellach ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau dysgu a fydd yn cael ei ddosbarthu yn awr fel rhan o'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 yn hytrach nag fel grant ar wahân. Mae hefyd yn cynnwys trosglwyddiad rheolaidd o £9.9m ar gyfer Cymraeg i Oedolion i'r Cam Gweithredu 'Gellir cael mynediad at ddysgu trwy'r Iaith Gymraeg'.

94. Mae'r llinell wariant hon yn cyllido darpariaeth chweched dosbarth yr awdurdodau lleol, darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yr awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Bydd gwella effeithlonrwydd y trefniadau darparu yn y sectorau hynny lle bynnag y bo'n bosibl yn lleihau'r effaith ar y ddarpariaeth gymaint ag sy'n bosibl. Byddwn hefyd yn amcanu at ddefnyddio'r fethodoleg cynllunio a chyllido newydd a gyflwynwyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15 i roi arweiniad o ran darparu rhaglenni yn y sectorau hyn a darparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr.

95. Yn y gyllideb hon rydym yn cydnabod pwysigrwydd addysg bellach yn yr ymgyrch i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac o ran cynyddu lefelau sgiliau pobl ifanc cyn iddynt ymuno â byd gwaith. Fodd bynnag, gan ein bod yn blaenoriaethu'r ddarpariaeth i ddysgwyr 16-18 oed, bydd effaith y gostyngiadau i'w gweld yn bennaf ar ddarpariaeth ran-amser. Fodd bynnag, byddwn yn

diogelu cyrsiau sgiliau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL).

96. Yn dilyn gostyngiadau i'r gyllideb hon ar gyfer 2014-15 fe wnaethom sicrhau cyllid ychwanegol i gynnig y Rhaglen Blaenoriaeth Sgiliau mewn Addysg Bellach. Yn 2014-15 darparodd y rhaglen hon £8m ar gyfer sefydliadau addysg bellach er mwyn iddynt gynnig addysg ran-amser i ddysgwyr cyflogedig, gan ganolbwyntio ar uwchsgilio'r gweithlu presennol. Rydym yn amcanu at gynyddu'r cyllid hwn yn 2015-16 a hefyd darparu cyllid cyfatebol ar ei gyfer o Gronfeydd Strwythurol Ewrop yng nghylch 2014-2020.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

97. Mae'r ymrwymiad i fod â threfniadau cyllido sy'n gwella gwaith cynllunio strategol wedi cael ei gwblhau. Cafodd y canllawiau cynllunio a chyllido, yn dilyn adroddiad terfynol yr Adolygiad o Gynllunio a Chyllido Ôl-16, eu cyhoeddi ym mis Hydref 2013. Rydym wedi bod yn gweithio gyda cholegau ar y newidiadau o ran cyllido fesul Rhaglen Ddysgu. Nid ydym yn gallu rhoi trefniadau cyllido dros dair blynedd ar hyn o bryd oherwydd y dyraniad byrdymor sydd gan Lywodraeth Cymru ei hun o ran y gyllideb.

98. Rydym hefyd wedi cyflawni, mewn partneriaeth gyda Colegau Cymru ac undebau llafur, gontract Cymru gyfan ar gyfer darlithwyr addysg bellach. Disgwylir y bydd hwn yn gymwys i'r holl staff darlithio erbyn mis Medi 2016.

99. Mae ein polisi Trawsnewid wedi ysgogi a chefnogi nifer o brosesau uno rhwng sefydliadau addysg bellach ledled Cymru. Arweiniodd prosesau uno a gwblhawyd yn 2014 at ostyngiad o 20 sefydliad yn 2009 i 9 (heb gynnwys prifysgolion dynodedig a'r rhai sydd wedi dod yn is-sefydliadau i sefydliadau addysg uwch), gan gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ysgogi achosion pellach o uno colegau addysg bellach.

100. Mae prosesau uno'n sbardun polisi allweddol ac yn fodd i sicrhau mwy o effeithiolrwydd strategol a chost-effeithlonrwydd. Mae disgwyl i enillion effeithlonrwydd sy'n deillio o brosesau uno fod yn sylweddol ac mae'r Adran Addysg a Sgiliau'n disgwyl i'r sefydliadau ail-fuddsoddi'r symiau hyn er budd dysgwyr, busnesau a'r gymuned leol. Fodd bynnag, gall costau cychwynnol proses uno fod yn sylweddol oherwydd ad-drefnu, uno systemau, staffio a marchnata.

***Gwariant Ataliol:***

101. Mae darparu addysg ôl-orfodol, ar gyfer dysgwyr 16-18, yn rhoi cyfrif am tua thri chwarter y llinell wariant Darpariaeth Addysg Bellach ac ystyrir ei fod yn wariant ataliol gan fod pobl ifanc yn codi eu lefelau sgiliau ac yn

gwella’u cyfleoedd cyflogaeth, gan leihau’r ddibyniaeth ar fudd-daliadau lles.

### *Llinell Wariant Datblygu Polisi Addysg Bellach*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 1,066 | 1,066 | 0 | 1,066 |

102. Mae’r gyllideb ar gyfer Datblygu Polisi Addysg Bellach wedi cael ei gynnal ar yr un lefel ar gyfer 2015-16. Mae’r gyllideb yn cefnogi prosiectau strategol a gweithgareddau gwella ansawdd sydd wedi’u bwriadu i wella’r modd y darperir dysgu ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys Llais y Dysgwr i Gymru, cyllid grant ar gyfer NIACE Cymru a phrosiect paru a dadansoddi data. Bydd hefyd yn cefnogi’r broses o gyflawni rhaglen newydd o ymchwil i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaethau chweched dosbarth.

***Y Rhaglen Lywodraethu:***

103. Mae’r gyllideb hon yn cefnogi’r ymrwymiad i sicrhau bod llais y dysgwr yn ganolog pan fo penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud mewn colegau addysg bellach. Mae cost o £0.160m yn 2015-16 yn gysylltiedig â’r ymrwymiad.

### *Deddfwriaeth*

*Deddf Addysg (Cymru) 2014*

104. Mae’r Ddeddf Addysg (Cymru) a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Mai 2014, yn ailenwi ac yn ad-drefnu’r corff cofrestru presennol, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) i greu Cyngor y Gweithlu Addysg, mae’n ymestyn y gofynion o ran cofrestru, cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu addysg, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgolion yng Nghymru.

105. Y bwriad yw mabwysiadu dull graddol ar gyfer cofrestru’r gweithlu addysg ehangach, gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn dod yn weithredol o 1 Ebrill 2015. Mae’r ymgynghoriad ar *Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru* yn rhedeg tan 7 Tachwedd 2014. Bydd y rheoliadau’n ymorol am flwyddyn drosiannol yn 2015-16, gyda’r model ffioedd terfynol yn weithredol ar gyfer cofrestru ym mis Ebrill 2016.

106. O 1 Ebrill 2015, bydd yn ofynnol i athrawon Addysg Bellach gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Yn y flwyddyn gyntaf yn unig, mae cymhorthdal ar gyfer athrawon Addysg Bellach wedi cael ei gynnig y bydd angen £0.180m ychwanegol ar ei gyfer yn 2015-16, gyda chostau'n cael eu talu o'r Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth. Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn parhau i fod yn gorff hunangyllidol.

107. Elfen olaf y Bil yw safoni dyddiadau tymhorau ysgolion, sy'n golygu costau staff minimol o £0.031m dros ddwy flynedd (tan 2015-16) yn ôl yr amcangyfrifon, a fydd yn cael eu talu o gyllideb costau rhedeg yr Adran Addysg a Sgiliau.

*Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014*

108. Cafodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Mae'r Ddeddf yn dileu nifer o gyfyngiadau a rheolaethau ar sefydliadau addysg bellach. Nid oes disgwyl y bydd unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru yn 2015-16 er mwyn gweithredu'r darpariaethau newydd. Bydd newidiadau y mae gofyn eu gwneud i ganllawiau, gan gynnwys diweddaru'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Memorandwm Ariannol yn cael eu rheoli gan swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau ac felly'n cael eu cyllido o gyllideb costau rhedeg bresennol yr adran.

*Y Bil Addysg Uwch (Cymru)*

109. Cyhoeddwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Addysg Uwch (Cymru) ar 19 Mai 2014 ac roedd yn nodi costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'r opsiwn a ffafrir i ddiwygio swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i alluogi rheoleiddio effeithiol. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru o £0.172m yn 2015-16. Fodd bynnag, costau staff yw'r mwyafrif o'r costau, a fydd yn cael eu talu o gyllideb costau rhedeg yr adran, gan adael costau rhaglen ychwanegol o £0.035m.

110. Bydd angen i'r cyllid ychwanegol hwn ddod o'r ddarpariaeth bresennol o fewn y Cam Gweithredu Addysg Uwch. O ganlyniad ni chynigir unrhyw ostyngiadau yn y Cam Gweithredu hwn yn 2015-16.

*Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)*

111. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil ar hyn o bryd yn cynnwys costau bras iawn sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach. Cred Llywodraeth Cymru y byddai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn elwa o fwy o fanylion ynglŷn â rhai o'r costau a gyfrifwyd i wella cadernid yr wybodaeth ariannol a ddarparwyd. Er hynny, mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i

neilltuo'n llawn ar hyn o bryd ac felly pe bai'r Bil yn dod yn ddeddf byddai'n rhaid ail-flaenoriaethu'r costau hyn o gyllidebau presennol.

*Deddfwriaeth y DU*

112. Rydym hefyd yn rhan o fonitro nifer o Filiau ar lefel y DU, y mae gennym ni fel Adran fuddiant penodol ynddynt neu a allai effeithio'n anuniongyrchol ar ein cylch gorchwyl. Mae'r rhain yn cynnwys; Y Bil Dadreoleiddio; Y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth; Y Bil Addysg (Rhannu Gwybodaeth); Y Bil Hawliau Defnyddwyr; Y Bil Taliadau Gofal Plant a'r Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda San Steffan i ddeall y goblygiadau i'r Adran, gan gynnwys yr effaith gyllidebol lawn, os bydd un. Fodd bynnag, ar y cam hwn, rhagwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol, os bydd rhai o gwbl, yn isel iawn ac y bydd modd eu talu o ddarpariaeth bresennol y MEG os bydd angen.

*Is-ddeddfwriaeth a Mesurau blaenorol*

113. Nid oes unrhyw oblygiadau sylweddol o ran cost i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn 2015-16 o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth, gan y bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'n cael eu talu o gyllideb costau rhedeg bresennol yr adran. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y portffolio o ganlyniad i Fesur Dysgu a Sgiliau Cymru 2009. Ar hyn o bryd mae'r holl ysgolion a cholegau addysg bellach yn ateb gofynion y Mesur. Yn gynharach eleni cafodd Rheoliadau Dysgu a Sgiliau Cymru eu diwygio, gan leihau'r dewisiadau ar gyfer dysgwyr CA4 o 30 i 25 dewis gyda'r nifer galwedigaethol o fewn y ffigwr hwn yn gostwng o 5 i 3 – daeth y newid hwn i rym o fis Medi 2014.

**Crynodeb**

114. Cyflwynir y Gyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2015-16 i'r Pwyllgor ei hystyried.

| EDUCATION AND SKILLS MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| RESOURCE BUDGET - Departmental Expenditure Limit | | | | | | |
| **SPA** | **Actions** | **Budget Expenditure Line (BEL)** | **2014-15 Supplementary Budget June 2014 £000** | **2015-16 Indicative Plans Final Budget December 2013 £000** | **2015-16 Changes £000** | **2015-16 New Plans Draft Budget £000** |
| Education & Training Standards | Literacy & Numeracy | Literacy & Numeracy | 7,036 | 6,197 | -1,685 | 4,512 |
| | | **ACTION Total** | **7,036** | **6,197** | **-1,685** | **4,512** |
| | Curriculum | 14-19 Learning in Wales | 10,241 | 8,000 | -8,000 | 0 |
| | | Foundation Phase | 99,751 | 99,751 | -97,900 | 1,851 |
| | | Curriculum & Assessment | 24,276 | 8,305 | 17,750 | 26,055 |
| | | **ACTION Total** | **134,268** | **116,056** | **-88,150** | **27,906** |
| | Teaching & Leadership | Teacher Development and Support | 17,849 | 17,849 | -7,462 | 10,387 |
| | | Initial Teacher Training (new) | 0 | 0 | 5,569 | 5,569 |
| | | **ACTION Total** | **17,849** | **17,849** | **-1,893** | **15,956** |
| | Qualifications | Qualifications inc Welsh Bacc | 5,045 | 5,603 | 2,300 | 7,903 |
| | | **ACTION Total** | **5,045** | **5,603** | **2,300** | **7,903** |
| | Post- 16 Education | Further Education Provision | 413,531 | 414,319 | -14,142 | 400,177 |
| | | Work Based Learning | 119,308 | 121,308 | -15,000 | 106,308 |
| | | FE Policy Development | 1,066 | 1,066 | 0 | 1,066 |
| | | **ACTION Total** | **533,905** | **536,693** | **-29,142** | **507,551** |
| | Higher Education | HEFCW-Running Costs | 2,768 | 2,768 | 0 | 2,768 |
| | | Higher Education Revenue | 330,341 | 330,173 | 540 | 330,713 |
| | | Higher Education Receipts | -2,798 | -2,798 | 0 | -2,798 |
| | | For Our Future - Coleg Ffederal & UHOVI | 32,304 | 30,498 | 0 | 30,498 |
| | | HEFCW Depreciation | 82 | 82 | 0 | 82 |
| | | **ACTION Total** | **362,697** | **360,723** | **540** | **361,263** |
| | Education Structures | Transformation | 250 | 0 | 0 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **250** | **0** | **0** | **0** |
| | Education Standards | School Governance (was School Effectiveness Grant) | 30,567 | 32,067 | -30,329 | 1,738 |
| | | School Standards Support | 2,194 | 2,194 | -830 | 1,364 |
| | | School Improvement Grant (new) | 0 | 0 | 141,021 | 141,021 |
| | | **ACTION Total** | **32,761** | **34,261** | **109,862** | **144,123** |
| | Pupil Deprivation Grant | Pupil Deprivation Grant | 71,246 | 34,246 | 47,800 | 82,046 |
| | | **ACTION Total** | **71,246** | **34,246** | **47,800** | **82,046** |
| | ICT & Information Management Systems | ICT & IMS Programme | 12,981 | 6,951 | -16 | 6,935 |
| | | **ACTION Total** | **12,981** | **6,951** | **-16** | **6,935** |
| | | **SPA Total** | **1,178,038** | **1,118,579** | **39,616** | **1,158,195** |

Annex 1

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Supplementary Budget June 2014 £000 | 2015-16 Indicative Plans Final Budget December 2013 £000 | 2015-16 Changes £000 | 2015-16 New Plans Draft Budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Skilled Workforce | Employment & Skills | Employment & Skills | 19,797 | 24,157 | 0 | 24,157 |
| | | **ACTION Total** | **19,797** | **24,157** | **0** | **24,157** |
| | Youth Engagement & Employment | Youth Engagement & Employment | 18,746 | 19,746 | -4,200 | 15,546 |
| | | **ACTION Total** | **18,746** | **19,746** | **-4,200** | **15,546** |
| | Educational & Careers Choice | Careers Wales | 30,500 | 27,000 | -7,000 | 20,000 |
| | | **ACTION Total** | **30,500** | **27,000** | **-7,000** | **20,000** |
| | | **SPA Total** | **69,043** | **70,903** | **-11,200** | **59,703** |
| Improving Wellbeing, Reducing Inequality & Increasing Participation | Wellbeing of Children & Young People | Spec. Placements/Students with Learning Difficulties FEIs | 16,002 | 16,002 | -4,521 | 11,481 |
| | | School Based Counselling | 500 | 500 | -420 | 80 |
| | | Food & Drink in Schools | 3,185 | 3,185 | 0 | 3,185 |
| | | Additional Learning Needs | 2,796 | 3,046 | -800 | 2,246 |
| | | **ACTION Total** | **22,483** | **22,733** | **-5,741** | **16,992** |
| | Post-16 Learner Support | Welsh Government Learning Grant (was Assembly Learning Grant) | 196,533 | 186,870 | 4,050 | 190,920 |
| | | SLC/HMRC Administration Costs | 7,338 | 5,838 | 2,500 | 8,338 |
| | | Maintenance Loans Res Budget Prov | 106,849 | 106,849 | 0 | 106,849 |
| | | Targeted Awards | 9,376 | 9,004 | -2,000 | 7,004 |
| | | **ACTION Total** | **320,096** | **308,561** | **4,550** | **313,111** |
| | Pupil Engagement | Tackling Disaffection | 1,158 | 1,158 | -500 | 658 |
| | | Grants for the education of travellers children | 1,100 | 1,100 | -1,100 | 0 |
| | | Minority Ethnic Achievement Grant | 10,000 | 10,500 | -10,500 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **12,258** | **12,758** | **-12,100** | **658** |
| | | **SPA Total** | **354,837** | **344,052** | **-13,291** | **330,761** |
| Welsh Language | Welsh in Education | Welsh in Education | 15,462 | 14,462 | 4,137 | 18,599 |
| | | **ACTION Total** | **15,462** | **14,462** | **4,137** | **18,599** |
| | Welsh Language | Welsh Language | 8,914 | 9,049 | -3,790 | 5,259 |
| | | Welsh Language Commissioner | 0 | 0 | 3,390 | 3,390 |
| | | **ACTION Total** | **8,914** | **9,049** | **-400** | **8,649** |
| | | **SPA Total** | **24,376** | **23,511** | **3,737** | **27,248** |
| Delivery Support | Delivery Support | Strategic Communications | 1,483 | 1,483 | 1,489 | 2,972 |
| | | Education Research & Services | 1,666 | 1,566 | 164 | 1,730 |
| | | **ACTION Total** | **3,149** | **3,049** | **1,653** | **4,702** |
| | | **SPA Total** | **3,149** | **3,049** | **1,653** | **4,702** |
| **Education & Skills Resource DEL** | | | **1,629,443** | **1,560,094** | **20,515** | **1,580,609** |

Annex 1

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Supplementary Budget June 2014 £000 | 2015-16 Indicative Plans Final Budget December 2013 £000 | 2015-16 Changes £000 | 2015-16 New Plans Draft Budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | | | | | |
| **Education & Training Standards** | Estate & IT Provision | General Support | 43,021 | 43,021 | 0 | 43,021 |
| | | Strategic Investment | 110,813 | 130,813 | 0 | 130,813 |
| | | **ACTION TOTAL** | **153,834** | **173,834** | **0** | **173,834** |
| | | **SPA Total** | **153,834** | **173,834** | **0** | **173,834** |
| **Education & Skills Capital DEL** | | | **153,834** | **173,834** | **0** | **173,834** |

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Supplementary Budget June 2014 £000 | 2015-16 Indicative Plans Final Budget December 2013 £000 | 2015-16 Changes £000 | 2015-16 New Plans Draft Budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **RESOURCE & CAPITAL BUDGET - Annually Managed Expenditure** | | | | | | |
| **Economic & Social Wellbeing & Reducing Inequality** | Post-16 Learner Support | Student Loans Capital AME | 338,322 | 361,489 | 43,960 | 405,449 |
| | | Student Loans Revenue AME | -92,240 | -129,627 | 18,049 | -111,578 |
| | | **ACTION Total** | **246,082** | **231,862** | **62,009** | **293,871** |
| | | **SPA Total** | **246,082** | **231,862** | **62,009** | **293,871** |
| **Skilled Workforce** | Educational & Careers Choice | Careers Wales | 6,000 | 6,000 | 0 | 6,000 |
| | | **ACTION Total** | **6,000** | **6,000** | **0** | **6,000** |
| | | **SPA Total** | **6,000** | **6,000** | **0** | **6,000** |
| **Education & Skills AME** | | | **252,082** | **237,862** | **62,009** | **299,871** |

| **Education & Skills MEG - SUMMARY** | 2014-15 Supplementary Budget June 2014 £000 | 2015-16 Indicative Plans Final Budget December 2013 £000 | 2015-16 Changes £000 | 2015-16 New Plans Draft Budget £000 |
|---|---|---|---|---|
| Resource DEL | 1,629,443 | 1,560,094 | 20,515 | 1,580,609 |
| Capital DEL | 153,834 | 173,834 | 0 | 173,834 |
| **Total DEL** | **1,783,277** | **1,733,928** | **20,515** | **1,754,443** |
| Annually Managed Expenditure | 252,082 | 237,862 | 62,009 | 299,871 |
| **Education & Skills** | **2,035,359** | **1,971,790** | **82,524** | **2,054,314** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Williams Graham AM
Chair of the Enterprise and Business Committee
19A East Street
Newport
NP20 4BR

7 October 2014

Dear William Graham AM,

Further to my attendance at the Enterprise and Business Committee – Inquiry into Tourism on 2 October I promised I would follow up with statistics on golf.

Golf tourism to Wales saw a 14 % increase in its value to the Welsh economy in 2013 compared with 2012. The total value of Golf Tourism in 2013 was £38 million, an increase of £4.7 million compared with 2012.

The successful bid for the Ryder Cup provided a catalyst to establish Wales as a Golf Tourism destination with visitor numbers growing 40% between 2004 and 2013 to 196,000 and total related expenditure growing 65% to £38m over the same period.

In total, golf tourism to Wales has generated £313m to the economy over the past 10 years with a total of 1.72m golf visitors.

<u>Ryder Cup</u>

This successful bid culminated in the hosting of the event in 2010 and since 2010, we have been able to reflect on triumphant European Team Captain, Colin Montgomerie's observation at the time that: "The world was watching and Wales delivered". Specifically, the outputs included:

- A total economic impact of £82.4 m during event week alone with £28.3m in the Newport area.
- A lasting golfing legacy with the £2m Ryder Cup Legacy fund supporting the development of 38 facilities across Wales, including at Caerleon and Llanwern, which continue to act as catalysts for grassroots golf and facilitate and encourage interest in the sport amongst hard to reach target groups.
- A platform from which Celtic Manor Resort, one of the biggest employers in Newport, could go on to attract further global events, including the recent NATO Summit.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

With regards to Keith Davies comment on VisitBrain's website entries on Dylan Thomas, the top page of their section on poets and writters does have a reference to him and a link to the Welsh Government's DT100 website.

Yours Ever,

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism